**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD**
**31 IONAWR 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Iau, 31 Ionawr 2019

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Carol Ellis (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Marion Bateman, Jean Davies, Andy Dunbobbin, Gladys Healey, Kevin Hughes, Mike Lowe, Dave Mackie, Ian Smith, Martin White a David Wisinger

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd David Healey (ar ran Cindy Hinds)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Cindy Hinds, Rita Johnson a Hilary McGuill. Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol)

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Christine Jones, Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol, Uwch Reolwr – Plant a'r Gweithle, Uwch Reolwr y Gwasanaethau Integredig, Rheolwr Gwasanaeth – y Blynyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd, a’r Ymarferydd Rhianta Arweiniol – y Blynyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**49. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

**50. COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2018.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo’r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

**51. CYNGOR IECHYD CYMUNED GOGLEDD CYMRU: GWELLA GWASANAETHAU IECHYD I BOBL YNG NGOGLEDD CYMRU**

Croesawodd a chyflwynodd y Cadeirydd Carol Williams, Dirprwy Brif Swyddog y Cyngor Iechyd Cymuned, a Linda Harper, Cadeirydd Pwyllgor Lleol Sir y Fflint, i’r cyfarfod. Fe’i gwahoddodd hwy i roi cyflwyniad ar y Cyngor Iechyd Cymuned: Gwella gwasanaethau iechyd i bobl yng Ngogledd Cymru. Pwyntiau allweddol y cyflwyniad oedd:

- Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru
- beth mae’r Cyngor Iechyd Cymuned yn ei wneud
- sut mae’r Cyngor Iechyd Cymuned yn gweithio
- enghreifftiau Sir y Fflint o waith y Cyngor Iechyd Cymuned

- pwyntiau allweddol y Cyngor Iechyd Cymuned

Diolchodd y Cadeirydd i'r Dirprwy Brif Swyddog a Chadeirydd Pwyllgor Lleol Sir y Fflint am eu cyflwyniad a gwahoddodd Aelodau i godi cwestiynau.

Aeth y Dirprwy Brif Swyddog ati i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r ymgyrch am sganiau MRi ar gyfer y prostad a dywedodd fod nifer o gleifion wedi gorfod ariannu sganiau eu hunain. Dywedodd fod y Cyngor Iechyd Cymuned wedi gwneud sylwadau a bod costau nawr yn cael eu had-dalu i bobl. Dywedodd fod y Cyngor Iechyd Cymuned yn parhau i gefnogi teuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan ward Tawel Fan. Fe wnaeth y Dirprwy Brif Swyddog sylw ar yr angen i dâl a gaiff ei godi am barcio ceir mewn ysbytai i fod yn rhesymol ac am bwysigrwydd cadw canol trefi yn fywiog. Yn dilyn awgrym gan Gadeirydd y Pwyllgor cytunwyd fod llythyr yn cael ei anfon i Aelodau Cynulliad yng Ngogledd Cymru cyn i'r e-ddeiseb gael ei hystyried gan Lywodraeth Cymru ar 13 Chwefror yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymyrryd i sicrhau nad yw sganio am gancr y prostad yn destun loteri côd post yng Nghymru.

Fe wnaeth y Cynghorydd David Healey sylw ar y ddarpariaeth iechyd meddwl yn Sir y Fflint a dywedodd ei bod yn anodd ffurfio barn. Teimlai un ai fod yna fwy o ymwybyddiaeth neu fod yna gynnydd mawr yn y galw am wasanaethau iechyd meddwl. Gofynnodd sut mae'r ddarpariaeth o ran iechyd meddwl yn Sir y Fflint yn cymharu â gwasanaethau iechyd meddwl a gaiff eu darparu gan awdurdodau lleol eraill gan fod rhestrau aros iechyd meddwl ar gyfer gwasanaethau wyneb i wyneb yn bryder. Hefyd cyfeiriodd y Cynghorydd Healey at Parabl a dywedodd ei bod yn ymddangos fod yna amheuaeth a fyddai'r sefydliad hwn yn parhau.

Cyfeiriodd y Dirprwy Brif Swyddog at y cyfarfod tîm iechyd meddwl ar y cyd a oedd wedi ei gynnal rhwng Cyngor Sir y Fflint a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a dywedodd fod Parabl yn sefydliad trydydd sector a oedd yn cynnig therapïau siarad i bobl gyda phroblemau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol. Roedd yn cydnabod fod yna restr aros hir i rai gwasanaethau iechyd meddwl a dywedodd fod hyn yn broblem barhaus. Dywedodd fod Cadeirydd y Bwrdd Iechyd, yn dilyn trafodaethau rhwng Cadeirydd y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor Iechyd Cymuned, wedi cytuno i ddarparu mwy o wybodaeth yn ymwneud â'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl o fewn BIPBC.

Cyfeiriodd Cadeirydd Pwyllgor Lleol Sir y Fflint at y mesurau arbennig a osodwyd ar y Bwrdd Iechyd a dywedodd fod iechyd meddwl yn rheswm a gyfrannai at hynny. Roedd yn cytuno fod "anghyson" fel disgrifiad yn nhermau darpariaeth iechyd meddwl yn Sir y Fflint yn berthnasol ar lefel gynradd a chymunedol. Dywedodd fod Is Gadeirydd y Cyngor Iechyd Cymuned yn arwain ar Iechyd Meddwl ac roedd yn rhagweld y byddai newyddion mwy cadarnhaol i'w glywed yn y 12 mis nesaf.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Kevin Hughes at wasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc a rhestrau aros am wasanaethau. Gofynnodd hefyd pa ddylanwad oedd gan y Cyngor Iechyd Cymuned i fynd i'r afael ag amseroedd aros brys mewn ysbytai.

Eglurodd y Dirprwy Brif Swyddog fod adrannau brys wedi cymryd rhan mewn ymarfer cenedlaethol y llynedd ac roedd hapwiriadau wedi eu cynnal ar yr holl Adrannau Brys (gan gynnwys Gogledd Cymru). Dywedodd fod y sefyllfa yn

achos pryder sylweddol ac na ellid dweud fod materion wedi eu datrys. Dywedodd fod cynrychiolwyr o'r Cyngor Iechyd Cymuned yn cyfarfod yn y dyfodol agos i adolygu'r sefyllfa yng Ngogledd Cymru. Awgrymodd y Dirprwy Brif Swyddog y byddai'r Cyngor Iechyd Cymuned yn awyddus i weithio gyda'r gwasanaethau cymdeithasol ac Aelodau lleol yn y dyfodol i graffu'r adrannau brys.

Gan gyfeirio at y sylwadau gan y Cynghorydd Kevin Hughes ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc, dywedodd Cadeirydd Pwyllgor Lleol Sir y Fflint mai'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) oedd y prif sefydliad ond dywedodd nad oedd yn ymddangos fod digon o ddarpariaeth i ddiwallu'r galw. Dywedodd ei bod yn sefyllfa oedd yn faes o bryder cynyddol a bod y Cyngor Iechyd Cymuned yn ceisio cael mwy o wybodaeth ac eglurder ynglŷn â sut yr oedd gweithredu'n gweithio. Mewn perthynas â gwasanaethau iechyd meddwl roedd yn teimlo'n gyffredinol fod yna angen am strategaeth greiddiol oedd yn cynnwys iechyd meddwl yn hytrach na'i roi ochr yn ochr.

Fe wnaeth y Dirprwy Brif Swyddog sylw ar yr oedi difrifol mewn atgyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau awtistiaeth a gwasanaethau therapi lleferydd ar draws Gogledd Cymru. Dywedodd y Cyngor Iechyd Cymuned eu bod wedi codi pryderon yn ymwneud â'r oedi mewn atgyfeirio cleifion.

Dywedodd y Cynghorydd Gladys Healey mai'r Cyngor Iechyd Cymuned yw "llais y bobl" a bod angen iddo fod yn gryfach. Gofynnodd pam fod yna restr aros hir ar gyfer llawdriniaethau clun a phen-glin. Hefyd fe wnaeth sylw ar wasanaethau iechyd meddwl a dywedodd fod yna angen am weithio a meddylfryd mwy cydgysylltiedig yn ymwneud â materion iechyd meddwl a chyfeiriodd at y problemau a gaiff eu creu gan dor-priodas, tlodi ayb. Dywedodd fod aros am amser hir am apwyntiad yn achosi straen ac yn gwaethygu problemau iechyd meddwl.

Roedd y Dirprwy Brif Swyddog yn cydnabod y pwyntiau a wnaed a chynigiodd fynychu cyfarfod y Pwyllgor sydd i'w gynnal ar 18 Gorffennaf, cyfarfod mae cynrychiolwyr o BIPBC a gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi eu gwahodd iddo.

Gofynnodd y Cynghorydd Ian Smith a oedd rôl y Cyngor Iechyd Cymuned yn adnabyddus i'r cyhoedd. Ymatebodd y Dirprwy Brif Swyddog fod yna waith pellach i'w wneud bob amser i godi ymwybyddiaeth. Pwysleisiodd mai un o adnoddau mwyaf y Cyngor Iechyd Cymuned oedd gwirfoddolwyr a dywedodd fod gan y Cyngor Iechyd Cymuned gyllideb o £3m i ymdrin â gwariant ar draws Cymru. Soniodd am ddibyniaeth y Cyngor Iechyd Cymuned ar wirfoddolwyr a dywedodd y codir ymwybyddiaeth wrth i'r gair fynd ar led. Fe wnaeth sylw ar y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol a dywedodd ei bod yn ymddangos fod pobl yn dod o hyd i'r Cyngor Iechyd Cymuned pan oeddent angen gwneud hynny.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn teimlo fod llais y Cyngor Iechyd Cymuned yn gryfach nac yr arferai fod ac roedd yn falch o glywed faint o waith oedd yn cael ei wneud ar ran y preswylwyr. Pwysleisiodd y Dirprwy Brif Swyddog fod y Cyngor Iechyd Cymuned yn cydweithio â BIPBC ond ei fod yn sefydliad annibynnol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Marion Bateman am amseroedd aros wedi brysbennu mewn adrannau brys a ph’run ai oedd cleifion yn cael eu dosbarthu yn unol â'u cyflwr tra'n aros wedi brysbennu, cytunodd y Dirprwy Brif Swyddog i ddarparu'r wybodaeth oedd ar gael o ganlyniadau arolwg diweddar.

Fe wnaeth y Cynghorydd Bateman sylw hefyd ar forâl y staff a mynegodd bryderon am les staff. Yn ystod ymweliad diweddar ag ysbyty, meddai, roedd staff yn gweithio oriau hir ac yn ymddangos fel pe baent o dan straen. Dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog fod y mater yn ymwneud â morâl staff wedi ei godi gyda Chadeirydd BIPBC ac y byddai’n rhannu’r ymateb gyda’r Pwyllgor. Dywedodd ei fod wedi rhoi sicrwydd y byddai’n mynd i’r afael â’r mater.

Dywedodd y Cynghorydd David Mackie fod y Prif Weithredwr newydd, mewn sesiwn holi ac ateb yn ddiweddar, wedi gwneud sylw ar yr hyn roedd wedi ei ddysgu o’i gefndir fel prif gwnstabl ac y gallai gyflwyno hyn i roi gwybodaeth i wasanaethau fel iechyd meddwl.

Fe wnaeth y Cynghorydd Dave Mackie sylw ar y rôl gadarnhaol a chwaraewyd gan y Cyngor Iechyd Cymuned i sicrhau fod gwasanaethau mamolaeth llawn yn parhau yng Ngogledd Cymru. O'r ymweliadau yr oedd wedi eu gwneud fel aelod o’r Cyngor Iechyd Cymuned, meddai, y prif fater oedd diffyg staff profiadol a staff wedi eu hyfforddi a holodd a oedd digon o bobl yn cael eu hyfforddi.

Awgrymodd y Cynghorydd David Healey fod cynrychiolwyr o’r Cyngor Iechyd Cymuned yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfod y Pwyllgor sydd i’w gynnal ar 18 Gorffennaf a bod BIPBC yn cael eu hysbysu o'r bwriad i wahodd cynrychiolwyr o'r Cyngor Iechyd Cymuned i'r cyfarfod hefyd.

Darllenodd y Cadeirydd gwestiwn ysgrifenedig oedd wedi ei gyflwyno gan y Cynghorydd Cindy Hinds yn ymwneud ag asiantaethau gofal preifat. Cytunodd y Cyngor Iechyd Cymuned i ddarparu ymateb ysgrifenedig i’r Cyng Hinds.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Dirprwy Brif Swyddog a Chadeirydd Pwyllgor Lleol Sir y Fflint am eu presenoldeb a'u hymatebion i gwestiynau'r Aelodau. Dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog y byddai'r Cyngor Iechyd Cymuned yn croesawu'r cyfle am fwy o gydweithio yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD**

Derbyn y cyflwyniad.

## 52. STRATEGAETH RHIANTA SIR Y FFLINT

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr, Plant a’r Gweithle, yr adroddiad i ddarparu’r wybodaeth ddiweddaraf am Fframwaith Strategaeth Rhianta Sir y Fflint a’r gwaith a wneir i ddarparu cefnogaeth rhianta o ansawdd a sy’n gyson ar draws Sir y Fflint gan gymryd i ystyriaeth y cynigion ariannu yn y dyfodol o ran hyblygrwydd cyllid a’r canlyniadau gofynnol. Cyflwynodd yr Uwch Reolwr y Rheolwr

Gwasanaeth, y Blynyddoedd Cynnar a Chefnogi Teuluoedd, a gwahoddodd hi i gyflwyno'r adroddiad.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth wybodaeth gefndir ac eglurodd fod dwy Strategaeth Rianta wedi eu cyhoeddi yn Sir y Fflint ers 2007 gyda Strategaeth Rhianta Sir y Fflint wedi ei lansio yn 2018 (wedi ei atodi i'r adroddiad). Mae'r Fframwaith Rhianta yn rhoi manylion ynglŷn â chynaliadwyedd a datblygiadau pellach rhaglenni rhianta ac mae'n ffurfio rhan o strategaeth ehangach ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal yn Sir y Fflint. Goruchwyliwyd y gwaith gan y Grŵp Strategol aml asiantaeth Rhianta yn Sir y Fflint.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth fod y gwaith yn Sir y Fflint ochr yn ochr â Rhianta yng Nghymru, canllawiau ar ymgysylltu a chefnogaeth Llywodraeth Cymru. Roedd llwyddiant y Strategaethau a'r Fframwaith mewn galluogi cefnogaeth rhianta o ansawdd da o ganlyniad i alinio'r polisi gyda gweithredu yn lleol, cyllid pwrpasol, rôl cydlynydd rhianta pwrpasol, trosolwg strategol drwy'r grŵp aml asiantaeth Rhianta yn Sir y Fflint a'r cydweithio rhwng nifer o wasanaethau i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth rhianta o ansawdd.

Soniodd y Rheolwr Gwasanaeth am y prif ystyriaethau, fel nodwyd yn yr adroddiad, yn ymwneud â'r Strategaeth Rhianta, cyd-destun polisi.

Manteisiodd y Rheolwr Gwasanaeth ar y cyfle i ddarllen llythyr o gefnogaeth gan yr Athro Judy Hutchings, Cyfarwyddwr y Ganolfan Ymyrraeth Gynnar ar Sail Tystiolaeth ym Mhrifysgol Bangor, i'r gwaith ar Fframwaith a Strategaeth Rhianta Sir y Fflint a gwaith y grŵp strategol aml asiantaeth, y rôl cydlynydd a'r canlyniadau. Hefyd mynegodd y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, ei llongyfarchiadau a'i gwerthfawrogiad i'r Rheolwr Gwasanaeth am y gwaith caled a'r canlyniadau cadarnhaol a gyflawnwyd.

Ceisiodd y Cynghorydd Gladys Healey gael sicrwydd fod cefnogaeth mewn lle i gynorthwyo teuluoedd aml ddiwylliannol ac y ceisir cymorth gan sefydliadau eraill i helpu gyda'r dasg hon. Eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth y gallai iaith fod yn rhwystr a bod cefnogaeth yn cael ei ddarparu i oresgyn hyn. Rhoddodd yr Ymarferydd Rhianta Arweiniol sicrwydd fod yr angen i ddarparu cefnogaeth aml ddiwylliannol yn ystyriaeth allweddol o fewn y Gwasanaeth a chyfeiriodd at yr adnoddau a'r cymorth a ddarparwyd mewn ieithoedd eraill. Hefyd fe wnaeth y Rheolwr Gwasanaeth sylw ar yr angen i ddarparu cefnogaeth aml ddiwylliannol i fynd i'r afael â materion diogelu.

Gofynnodd y Cynghorydd Kevin Hughes pa gymorth oedd ar gael i neiniau a theidiau oedd â chyfrifoldeb fel prif ofalwyr dros eu hwyrion a'u hwyresau. Eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth tra nad oedd yna unrhyw raglen benodol ar gyfer neiniau a theidiau roedd pwysigrwydd eu rôl yn cael ei gydnabod ac roeddent yn cael eu croesawu a'u hannog i ymgysylltu gyda'r Gwasanaeth i sefydlu cysylltiadau ar draws y cenedlaethau.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Fod y Pwyllgor yn cefnogi'r gwaith rhianta hyd yma; a

(b) Bod y Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad a’r gwaith a wneir i ddarparu cefnogaeth rhianta o ansawdd a sy’n gyson ar draws Sir y Fflint gan gymryd i ystyriaeth y cynigion ariannu yn y dyfodol o ran hyblygrwydd cyllid a’r canlyniadau gofynnol.

## 53. YMWELIADAU ROTA

Nid oedd unrhyw adroddiad ar ymweliadau rota. Dywedodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymdeithasol ac Iechyd y byddai rhestr newydd o ymweliadau rota yn cael eu dosbarthu i Aelodau yn y dyfodol agos.

## 54. RHAGLEN GWAITH I’R DYFODOL

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymdeithasol ac Iechyd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol i’w hystyried. Dywedodd fod yr eitem ar Ofal Dydd Anableddau Dysgu a’r Model Cyflawni Amgen Cyfleoedd Gwaith wedi ei ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2018, ac i osgoi dyblygu llwyth gwaith roedd wedi ei dynnu oddi ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol. Dywedodd y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ddydd Iau, 28 Mawrth 2019, er mwyn ystyried yr eitemau canlynol:

- Monitro Cynllun y Cyngor Q3
- Y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd estyniad Marleyfield House
- Oedi wrth drosglwyddo gofal/Un Pwynt Mynediad

Bydd sesiwn fer yn cael ei chynnal ar gychwyn y cyfarfod i ystyried fformat Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Eglurodd yr Uwch Reolwr, Plant a'r Gweithle, ei fod, yn dilyn trafodaeth mewn cyfarfod blaenorol o’r Pwyllgor, wedi cwrdd â chynrychiolwyr o Barnardo’s a Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru. Awgrymodd fod cynrychiolwyr o’r ddau sefydliad yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol i drafod adnabod gofalwyr ifanc.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Diweddaru'r Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol yn unol â hynny;

(b) Rhoi awdurdod i’r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad gyda Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio’r Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Gwahodd cynrychiolwyr o Barnardo’s a Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru i fynychu cyfarfod yn y dyfodol i drafod adnabod gofalwyr ifanc.

## 55. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelod o’r cyhoedd na’r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 11.35 am)

..................................................

**Cadeirydd**